

geiriosen wyllt — 'y pren y crogodd y Diawl ei fam', a 'thafod yr edn', enw Cymraeg am *stichwort* neu *stellaria* i roi iddo'i enw Lladin. Dywedir bod yr hen wraig wybodus, Hannah Whitney o Fryn-gwyn, yn mynnu galw'r blodyn hwnnw yn 'Bird's Eye' yn hytrach na 'Bird's Tongue' yn unol â'r enw Cymraeg. Mewn un man mae'r dyddiadurwr yn defnyddio'r term 'Glas Ynys' heb fwy o eglurhad wrth sôn am ei chwaer a'i frawd yng nghyfraith yn dychwelyd o India ac yn ail-ddarganfod irder Prydain.

Cofnodir ganddo ambell air Cymraeg a lithrodd i dafodiaith Saesneg Maesyfed. Yr enghraifft hynotaf ganddo yw'r gair 'heir loun' a ddefnyddid gan yr hen bobl i ddisgrifio mis Mawrth. Enghraifft o'r gair 'hirlwm' yw hwn ac yn ddi-ddorol ddigon fe ddyfynnir yr enghraifft hon gan olygyddion *Geiriadur Prifysgol Cymru* wrth drafod y gair. Dywedasai Margaret Griffith o bentref Cleirwy wrth Kilvert y byddai'r ffermydd hen ffasiwn yn cadw ystên o fenyn a rhywbeth maethlon arall wrth gefn hyd fis Mawrth gan yr ystyrid Mawrth yn fis anodd a llwm a bod angen cynhaliaeth ychwanegol arnynt.

Un o'r hanesion hynotaf a groniclir gan Kilvert yn y dyddiadur ynglŷn â diflaniad yr iaith Gymraeg o Faesyfed yw'r stori am Mr Marsden, ficer Glasgwm, a ddigwyddodd sôn wrth Kilvert am farwolaeth hen wraig yn y plwyf hwnnw bedair blynedd ynghynt. Y wraig honno oedd yr olaf a fedrai siarad tafodiaith frodorol Maesyfed yn yr ardal arbennig honno. Dysgasai'r iaith gan ei mam a'i mam-gu yn ystod ei phlentyndod ac ni fu'r wraig yn byw oddi allan i blwyf Glasgwm ar hyd ei hoes. Ni fedrai neb arall yn y plwyf siarad Cymraeg â hi heblaw Mr Marsden a chái foddhad mawr pan ddarlennai ef lyfr Cymraeg iddi. Dywed Kilvert mai plwyf Saint Harmon oedd yr unig blwyf ym Maesyfed lle siaredid y Gymraeg yn saithdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond nid oedd hynny'n gywir gan fod y Gymraeg wedi para hwyaf yng Nghwmteuddwr, fel y crybwyllwyd eisoes, yn enwedig yn y ffermydd hynny a oedd yn ffinio â Cheredigion.

Cofnod diddorol arall sy'n ymwneud â'r iaith yw hwnnw lle sonnir am gŵn hela Sir Francis Ford, Cwrt Cathedin, a wrthodai ymateb i orchmynion Saesneg gan eu bod wedi arfer hela yn Gymraeg. Adroddir hanesyn hefyd am ferch ifanc o Lanymddyfri y rhoddwyd iddi'r llysenw 'the Dingle Flower of fair Llandoverry' gan y dyddiadurwr, a fu ar wyliau yn nhŷ'r ysgol yng Nghleirwy, '... she was very shy and the English did not come readily. But she has much more "Saesneg" than she had and is

much improved by her visit at the school house.

Cadwyd ambell stori am y Gymraeg sy'n ymwneud â galwedigaeth eglwysig Kilvert. Pan aeth ef a'i dad ar wyliau pysgota i Lyn Syfaddan fe ddywedir wrtho bod John Bowen, curad Llan-gors, yn cynnal gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg bob yn ail. Ychydig dyddynwr ar y bryniau, yn unig, a fethai â deall Saesneg ac ni ddeuent hwy fyth i'r gwasanaethau, ddim hyd yn oed i'r gwasanaethau Cymraeg. Nid oedd y dyddiadurwr yn rhagweld y byddid yn parhau i gynnal cyfarfodydd Cymraeg lawer yn hwy. O sylwi ar gofysgrifau gofwy'r Eglwys yng Nghymru gwelir bod cyfarfodydd Cymraeg yn dal i gael eu cynnal yn Llan-gors hyd 1892 o leiaf, y flwyddyn ddiweddaraf y mae cofnodion ar gael ar ei chyfer. Sonniir hefyd am gurad cynorthwyol yn Llan-gors a ddenwyd yno'n arbennig o Goleg Llanbedr Pont Steffan am ei fod yn ddwyieithog. Dywedir iddo greu cryn ddfyrrwch i'r gynulleidfa drwy gamynganu rhannau o'r gwasanaeth. Honniir iddo ddweud dwy frawddeg yn ei Gymraeg bratiog a swniai'n debyg i 'in the rattling of mice' a 'two backsides joined in wedlock' o dderbyn trosiad y dyddiadur.

Yn ogystal ag enghreifftiau o'r Gymraeg, ceir nifer o eiriau yn y dyddiadur sy'n deillio o dafodiaith Saesneg sir Faesyfed ac fel y gwelir, gellir olrhain rhai o'r rheiny yn ôl i darddiad Cymraeg. *Pitch* yw'r gair lleol am riu neu dyle; *very simple* yw'r ymadrodd am rywun sy'n anhwylyd, cymharer â 'symol' yn Gymraeg; *unhackle* yw'r term am ddadwisgo neu ymddiathru; *mixen* yw'r gair am domen a *mawn* (ynganer fel Môn) yw'r gair lleol am y tanwydd mawn a cheir y gair yn digwydd yn yr enw 'Mawn Hill' ar Fynydd Cleirwy. Defnyddid hefyd y gair *gambo* am gert i gario gwair. Rhestrwyd rhai o'r geiriau tafodieithol hyn gan Kilvert a'u rhoi i Anthony Mayhew ac fe'u cyhoeddwyd yn *Notes and Queries* a'u cyhoeddi wedyn yn yr *Hereford Journal*.

Tua diwedd ei yrfa, pan benodwyd ef yn ficer Brodorddin yn swydd Henffordd, cawn hanes amdano'n ceisio esbonio'r enwau lleol i'w blwyfollion o Saeson. Dywed, er enghraifft, ar 7 Ionawr 1877, 'Yr oedd Parry a'i ferch â diddordeb mawr yn fy nghyfieithiadau o enwau Cymraeg y ffermydd a'r caeau ar Fryn Brodorddin'.

Does ryfedd yn y byd fod gŵr a ymddiddorai gymaint yn yr iaith, fel popeth arall o'i gwmpas, yn dewis dweud: 'Cymru, Cymru annwyl. Mae'n rhaid fod gennyf waed Cymreig yn fy ngwythiennau. Byddaf bob amser yn teimlo mor hapus a naturiol a chartrefol ymhlith y Cymry caredig'.

DOCTOR DAN

gan RHIDIAN GRIFFITHS

BOB NADOLIG anfonir miliynau o gardiau cyfarch, ond prin iawn yw'r rheini sy'n cynnwys carol newydd ei chyfansoddi. Petaech yn gyfaill i'r cerddor Daniel Protheroe, fodd bynnag, caech gerdyn felly bob Nadolig, a fyddai'n siŵr o osod sêl arbenigrwydd ar yr wyl. Tebyg ei fod yn anfon llawer o gardiau, oherwydd yr oedd yn ŵr cyfeillgar, hwyliog, a hoff gan bawb: dengys cartŵn Illingworth ohono, a gyhoeddwyd yn *Y Cerddor Newydd* yn 1923, bersonoliaeth radlon y gwrthrych.

Un o feibion De Powys oedd Daniel Protheroe. Fe'i ganed yn Ystradgynlais fis Tachwedd 1866, yn fab i Daniel ac Eleanor Protheroe. Collodd ei dad pan oedd yn saith oed, ond profodd garedigrwydd mawr oddi ar law ei ewythr, Thomas Williams, Cloth Hall, a oedd ei hun yn ganwr. Bro gerddorol oedd ardal

ei fagwraeth: yr oedd ei rieni wedi canu yng nghôr Ifander, Cymdeithas Gorawl Ddirwestol Dyffryn Tawe, rhwng 1862 ac 1865. Yr oedd gan sawl capel ym mhen ucha'r cwm ei gôr, ac yn Yorath, Cwmgiedd, y dysgodd Daniel elfennau cerddoriaeth a'r sol-ffa dan law dau gerddor arall a fagwyd yn y cylch, Philip Thomas a J. T. Rees. Erbyn y saithdegau daeth bandiau'n boblogaidd yn yr ardal, a'r Daniel bach yn hapus guro'i ddrwm mewn *drum and fife band*. Roedd ganddo lais alto swynol, a ddaeth â llwyddiant iddo yn Eisteddfod y Deheudir yn Aber-tawe yn 1880 ac yn Eisteddfod Genedlaethol Merthyr y flwyddyn ganlynol. Erbyn 1885 yr oedd yn arwain côr Ystradgynlais i fuddugoliaeth mewn eisteddfodau.

Yn 1886, wedi cael ar ddeall gan berthynas fod yna gymuned gerddorol o Gymry yn Scranton,



DR. DANIEL PROTHEROE.